

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

[Canllaw](#) ar sut mae cwblhau'r ffurflen hon ar StaffNet. Cliciwch ar y dolenni isod i weld canllaw penodol ac enghreifftiau ar gyfer pob rhan. Mae gwybodaeth ategol ychwanegol ar gael yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllaw.

Dylid cwblhau'r ffurflen fesul cam i sicrhau diogelu asesiad cadarn. Ceir manylion y broses gwblhau ar StaffNet.

Cysylltwch â [Tim Greaves](#) os oes arnoch angen y ffurflen hon ar ffurf arall.

1. [Beth rydych yn ei asesu?](#)

Polisi Adennill Rhent

2. [Pwy sy'n gyfrifol?](#)

Enw	Alison Wood	Teitl y Swydd	Rheolwr Incwm
Tîm	Tîm Incwm	Cyfarwyddiaeth	Tai a'r Amgylchedd

3. [Pryd cynhelir yr asesiad?](#)

Dyddiad cychwyn yr asesiad	Chwefror 2017
-----------------------------------	---------------

4. [Disgrifiwch y cynnig](#)

Beth yw diben y cynnig?

Cyflwyno polisi adfer rhent diwygiedig i gynorthwyo tenantiaid i dalu eu rhent a sicrhau bod y Cyngor yn casglu'r incwm rhent sy'n ddyledus.

Pam mae angen gosod polisi fel hyn?

I sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r heriau y mae'r Diwygio Lles yn eu cyflwyno a chynorthwyo'r tenantiaid trwy newidiadau'r Diwygio Lles sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

bryd.

Mae cyflwyno'r newidiadau diwygio lles wedi arwain at newidiadau sylfaenol yn y ffordd y mae tenantiaid yn derbyn taliadau budd-daliadau Tai ac yn fwyfwy, mewn rhai achosion bydd yn gostwng y swm y maent yn gymwys i'w dderbyn fel lwfans tai yn y tâl cynhwysol bob mis.

Rydym yn datblygu dealltwriaeth o anghenion y cwsmer a chyngor Bro Morgannwg o ran effaith diwygio lles, mae hyn yn cynnwys anghenion TG, adolygiadau polisi a gweithdrefn a chyfansoddiad y tîm. Mae gennym bedwar Swyddog Incwm ar hyn o bryd a thri Swyddog Cyngor Ariannol a all gynnig rhwydwaith cynorthwyol i'n cwsmeriaid.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol, nid yn unig er mwyn datblygu diwylliant o dalu a bod yn gyfrifol ar gyfer y tenantiaid ond hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth angenrheidiol i lwyddo a chadw eu tenantiaeth.

Mae'n bwysig sefydlu fframwaith cyngori a chynorthwyo tenantiaid er mwyn iddynt ddefnyddio eu hincwm orau a bod mewn sefyllfa gryfach i dalu eu rhent.

Bydd hyn yn sicrhau bod ystod o gamau gweithredu a chymorth addas, sy'n unol â Phrotocol cyn gweithredu'r Llys ac yn gwneud y mwyaf o incwm rhent y Cyngor er mwyn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn.

Mae hefyd yn bwysig nodi canllawiau clir o ran proses dileu dyledion cyn denantiaid nad yw'n ddarbodus eu canlyn.

Oes angen i ni ddefnyddio adnoddau sylweddol ar gyfer hyn (megis arian neu amser staff)?

Rydym yn rhoi'r Tîm Cyngor Ariannol ar waith yn barhaus i gynorthwyo ein cwsmeriaid. Rydym yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael eu harwain trwy'r system budd-daliadau er mwyn gwneud y mwyaf o'u hincwm a chadw eu tenantiaeth.

Beth yw'r canlyniadau a fwriedir gan y cynnig?

Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r heriau y mae'r Diwygio Lles yn eu cyflwyno ac yn gostwng cymaint o'r effaith negyddol ar denantiaid â phosibl.

Nodi canllawiau clir o ran proses dileu dyledion cyn-denantiaid nad yw'n ddarbodus eu canlyn bellach .

Ni fydd anffafiaeth o ganlyniad i gyflwyno'r newidiadau hyn yn y polisi, bydd y gweithredu'n cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb ac eir i'r afael ag effaith Diwygio Lles ar denantiaid y Cyngor.

Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio?

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Y defnyddiwr gwasanaeth.
Fydd y cynnig yn effeithio ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithio?
Na fydd
Fydd y cynnig yn effeithio ar sut rydych yn darparu gwasanaethau?
Bydd gweithredu'r polisi'n cynyddu cynaliadwyedd tenantiaethau a byddai'n hyrwyddo sicrhau'r canlyniad a gyrchir.
Fydd y cynnig yn effeithio ar bolisiau neu arferion eraill?
Na fydd
Allwch chi newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfartaledd cyfle ac yn meithrin perthnasau da?
Byddwn yn parhau i drafod ffyrdd y gallwn hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthnasau da gyda'n cwsmeriaid. Mae hyfforddiant cydraddoldeb wedi bod a bydd yn parhau ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn yr Adran Rhent er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth sy'n addas at y diben.
Sut byddwch yn cyflawni'r newidiadau a gynigir?
Bydd yn disodli'r Polisi Rhent cyfredol, sydd bellach wedi dyddio.
Pwy fydd yn gweithredu'r cynnig?
Bydd y tîm incwm yn casglu ac yn adfer incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae'r Polisi'n nodi'r egwyddorion y dylid eu dilyn wrth reoli dyledion trwy'r Cyngor ac yn ceisio sicrhau y cedwir yr holl arian sydd i'w gasglu a'r arian sy'n ddyledus i'r Cyngor leiaf bosibl. Mae gan y Cyngor ddyletswydd cyfreithiol a chyfrifoldeb i'w ddinasyddion i sicrhau y telir incwm yn brydlon.
Sut y byddwch yn gwybod eich bod wedi cyflawni nod y cynnig?
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio'r dulliau adfer mwyaf effeithiol sydd ar gael ac mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

canllaw swyddogol a'r arfer gorau i sicrhau y cyflawnir yr amcanion canlynol.

- Caiff yr holl ddyledwyr a threthdalwyr eu trin yn deg.
- Defnyddio'r arfer gorau a gydnabyddir er mwyn casglu dyledion.
- Dull cydlynol o reoli'r ddyled.
- Canfod y cymorth priodol y sydd ei angen o bosibl ar y rhai y mae arnynt ddyled i'r cyngor a sicrhau yr ystyrir eu hamgylchiadau.
- Mae'r camau gweithredu a gymerir yn deg ac yn agored ac ni ddylid trin unrhyw ddyledwr yn llai ffafriol oherwydd hir, cenedligrwydd, lliw, tras ethnig neu genedlaethol, crefydd, cred, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu anabledd.

5. [Pa dystiolaeth rydych yn ei defnyddio?](#)

Ymgysylltu (â rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Rydym yn cynnig cefnogaeth a chymorth i bob tenant os oes ganddo falans ar ôl yn ei gyfrif rhent. Bydd y Tîm Cyngor Ariannol yn gwneud ymweliad cartref neu gyfweliad swyddfa i wneud y gorau o'r budd-daliadau, dangos lle y ceir cyngor dyledion, cynnig amrywiaeth o drefniadau pris ar gyfer tanwydd a thrydan a chynlluniau i leihau biliau dŵr. Rydym yn gweithio gyda'r Banc Bwyd ar hyn o bryd ac yn cysylltu ag amrywiaeth o elusennau i helpu ein preswylwyr aros yn eu cartref.

Ymgynghori (â rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Rydym wedi ymgynghori â'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau yr ymdrinni â hawliadau yn gyflym ac y derbynnir gwybodaeth yn gyflym i gynorthwyo ein preswylwyr.

Mae'r Swyddog Cyngor Ariannol a'r Tîm Rheoli Incwm yn mynd i'r cyfarfodydd Cynhwysiant Ariannol yn rheolaidd i ymgynghori ar arfer gorau gydag asiantaethau eraill a rhoi cynllun gweithredu cyffredinol ar waith i gynorthwyo'r gymuned ym Mro Morgannwg. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill fel Foodbank i gynorthwyo'r gymuned yn ogystal â mynd i ddigwyddiadau agored a chyhoeddi deunydd i hyrwyddo ein gwasanaeth i'n tenantiaid.

Mae'r Rheolwr Incwm yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Cyfrifon a Budd-daliadau Tai bob tri mis i drafod pryderon ynglŷn â phrosesu hawliadau a'r newidiadau yn y Diwygio Lles.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Data cenedlaethol ac ymchwil

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Deddf Diwygio Lles

www.equalityhumanrights.com/en/parliamentary-library/welfare-reform-bill \l "accordion-menu

Cwmpas yr ymateb hwn

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymateb i'r Ddeddf Diwygio Lles yn unol â'i ddyletswyddau a grymoedd statudol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a'i gyfrifoldebau fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol yn unol ag Egwyddorion Cytundeb Paris.

Mae tystiolaeth gref yn dangos cysylltiadau clir rhwng pobl â Nodwedd a Ddiogelir â diffyg gwaith ac incwm isel. Felly mae grwpiau yn ein maes cyfrifoldeb yn debygol o fod yn ganran uwch nag yn gyffredinol ymhlith y rhai y mae arnynt angen cymorth llesiant.

Mae'r dystiolaeth ganlynol yn atgyfnerthu'r farn hon:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/file/15071/download?token=5orvddtg>

- Aelwydydd un rhiant gyda phlant dibynnol oedd yn cynrychioli'r ganran uchaf o aelwydydd di-waith, sef 39.7 y cant.

Merched yw'r pen teulu yn 90 y cant o'r aelwydydd un rhiant. . com/en/parliamentary-library/welfare-reform-bill

- Mae teuluoedd sydd ag aelod anabl, aelwydydd un rhiant a rhai lleiafrifoedd ethnig hefyd mewn risg uwch o fod mewn tlodi parhaus.
- Bu i ganran y dynion anabl heb gymwysterau sydd mewn gwaith haneru rhwng canol y 1970au a'r blynyddoedd 2000 cynnar.
- Bydd modd talu elfen dai taliadau pobl ag anawsterau dysgu, trafferthion cam-ddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl i'r landlord yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y gallant gynnal eu tenantiaeth gyda Threfniant Talu Arall.
- Bydd yr Adran Incwm yn sicrhau y rhoddir hyn ar waith wrth osod taliadau'r Elfen Dai gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Data lleol ac ymchwil

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru.

Mae manteision clir i landlordiaid yn deall sefyllfa eu tenantiaid yn well ac yn gallu ymateb yn rhagweithiol ac yn gyflym i broblemau tenantiaeth.

6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

A yw'n dangos beth fydd yr effaith (gadarnhaol a negyddol)?

Mae cryn dystiolaeth negyddol a chadarnhaol ar gyfer y Diwygio Lles a'i effeithiau ar ein cwsmeriaid.

Y prif grŵp yr effeithir arnynt yw'r unig rieni, sydd fel arfer yn ferched sengl gyda phlant, a'r rhai dan 35 oed yr effeithir arnynt gan y rhent unig ystafell.

Ble mae'r bylchau?

Ni fu bylchau yn y dystiolaeth ond rydym yn parhau i fonitro'r grwpiau a'r effaith trwy gynnal arolwg â'r preswylwyr rydym yn ymdrin â nhw yn ddyddiol.

Beth wnewch chi am hyn?

Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r grwpiau hyn trwy gymorth elusennau lleol (e.e. banciau bwyd, cynllun rhyddhad y ficer), ceisiadau am Daliadau Tai â Disgresiwn a gwneud y mwyaf o'r budd-daliadau.

Pa ddata monitro a gasglwch?

Byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'n tenantiaid, lefel yr rhent dyledus a nifer y preswylwyr y mae'r diwygio lles yn effeithio arnynt, Credyd Cynhwysol a'r cap ar y budd-daliadau er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal tenantiaid ac yn cynnig gwasanaeth sy'n addas at y diben.

Rydym yn sicrhau y cynigir apwyntiad Cyngor Ariannol i'n preswylwyr â dyled ar eu cyfrif

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

rhent neu sy'n wynebu trafferthion ariannol. Byddwn yn monitro'r apwyntiadau hyn er mwyn adnabod yn glir a oes diffygion yn ein gwasanaethau a byddwn yn parhau i fonitro Oedran, Anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaid sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a'r Gymraeg er mwyn gweld a oes unrhyw grŵp yn methu derbyn y gwasanaethau a chanfod ffyrdd o wella'r gwasanaethau.

Pa mor aml y byddwch chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?

Rydym yn dadansoddi'r adroddiadau hyn bob mis ac yn rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn rheolaidd i wella meysydd penodol os yw dyledion yn cronni.

Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol yn adroddiad monitro blynyddol y Cyngor ac yn dadansoddi'r canfyddiadau i adnabod unrhyw grŵp nad ydym yn ymgysylltu ag e ac yn teilwra'r gwasanaeth at anghenion ein cwsmeriaid er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Ym mhle byddwch yn cyhoeddi data monitro ac adroddiadau?

Bydd y rhain yn dod yn rhan o'n KPI y mae adroddiad misol amdanynt.

7. [Impact](#)

Oes effaith?

Bydd dyledion yn cynyddu oherwydd y telir elfen dai cwsmeriaid yn fisol wedi'r mis gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hytrach nag yn wythnosol gan yr Adran Budd-daliadau Tai. Byddwn yn parhau i wneud yn iawn am hyn trwy gynorthwyo'r grwpiau a adnabu y mae'r Diwygio Lles yn effeithio'n wael arnynt.

Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros dod i'r casgliad hwn? Cyflwynwch dystiolaeth

Fel yr eglurom, rydym yn gweithio gyda phob tenant cyngor awdurdod lleol y mae angen help arno os yw'n cydweithio â ni.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Yw hi'n debygol y bydd effaith? Sut?

Oedran – Mae'r rhent ystafell sengl i bobl dan 25 yn effeithio ar y grŵp hwn; rydym eisoes wedi cychwyn monitro ein preswylwyr a rhoi gwybod iddynt am y newid hwn. Mae hawliau pobl dan 25 oed yn caniatáu budd-daliadau is ac felly maent mewn mwy o risg o wynebu caledi (yn cynnwys prentisiaid). Mae'r lwfans yn is ar gyfer pâr os yw'r ddau dan 25 oed dan Credyd Cynhwysol, felly byddant mewn sefyllfa waeth. Mae'n llai tebygol bod gan bobl ifanc/pobl sy'n gadael gofal y profiad a'r sgiliau i ddod i ben ar incwm isel ac ymdopi â newid i'w budd-daliadau. Parau o oedrannau cymysg – dan y system bresennol, does ond angen i un aelod o'r pâr fod mewn oedran pensiwn iddynt hawlio Credyd Pensiwn a hawl ar fudd-daliadau uwch. Dan Credyd Cynhwysol, os yw person mewn oedran gwaith, Credyd Cynhwysol yn unig y gallant hawlio. Gallai gostyngiad mewn budd-daliadau arwain at fwy o dlodi ymhlith plant.

Anabledd – Gallai symud o Lwfans Byw i Bobl Anabl i daliadau Annibynnol Personol achosi pryder ac ansicrwydd. Mae risg y bydd yr incwm yn is ac mae'n debygol y bydd eu gwariant yn uwch felly mae risg uwch o dlodi. Mae'n bosibl y bydd y bobl sy'n derbyn y tâl ychwanegol oherwydd anabledd mewn sefyllfa waeth oherwydd Credyd Cynhwysol oherwydd y gall y tâl ychwanegol oherwydd anabledd ostwng mewn rhai achosion o £83.35 yr wythnos i £28.15. Mae anawsterau cyfathrebu i bobl fyddar a phobl ddall.

Ailbennu rhywedd, yn cynnwys hunaniaeth rhywedd – does dim tystiolaeth o newid yn yr amgylchiadau; byddwn yn parhau i fonitro.

Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu yn unig) – Dim tystiolaeth, byddwn yn parhau i fonitro.

Beichiogrwydd a mamolaeth – Mae'n bosibl y bydd y dreth ystafell wely yn effeithio ar ferched bechiog wrth ddsrannu eiddo iddynt cyn geni'r babi. Mae'n fwy tebygol yr effeithir ar deuluoedd mawr gan y cap ar fudd-daliadau a fydd yn arwain at ostyngiad incwm.

Hil – rhwystrau iaith – camddealltwriaeth a gwybodaeth anghywir. Efallai na fydd pobl yn deall y newidiadau neu na fyddant yn hawlio'r budd-daliadau cywir a bydd hyn yn arwain at ddyledion rhent, tlodi a rhagor o ddyled. Bydd hi hefyd yn anos defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael a dod o hyd i hyfforddiant.

Crefydd a chred – Mae dynion ifainc o grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fynd i ddyled a chael eu troi allan.

Rhyw – Dim tystiolaeth, byddwn yn parhau i fonitro.

Cyfeiriadedd rhywiol – Dim tystiolaeth, byddwn yn parhau i fonitro.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Y Gymraeg – Dim tystiolaeth, byddwn yn parhau i fonitro.

Hawliau dynol – Dim tystiolaeth

Sut gwyddoch chi?

Eglurwch ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Oedran – Fel uchod

Anabledd – Newid o'r Lwfans Byw i Bobl Anabl i Daliadau Annibynnol Personol, sydd wedi effeithio ar lawer ac mae nifer fawr o gwsmeriaid yn cael eu hasesu fel ffit i weithio ac felly maent yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith – fel yr uchod.

Ailbennu rhywedd, yn cynnwys hunaniaeth rhywedd – Dim tystiolaeth

Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu yn unig) – Fel yr uchod.

- **Beichiogrwydd a mamolaeth -**
- Aelwydydd un rhiant gyda phlant dibynnol oedd yn cynrychioli'r ganran uchaf o aelwydydd di-waith, sef 39.7 y cant. Merched yw'r pen teulu yn 90 y cant o'r aelwydydd un rhiant.

Oedran – Fel uchod

Crefydd a chred – fel yr uchod

Rhyw – mae 90 y cant o'r aelwydydd un rhiant yn rhai gyda merched yn ben teulu, a dyma'r grŵp cleientiaid tlotaf ar hyn o bryd.

Cyfeiriadedd rhywiol – dim tystiolaeth o effaith

Y Gymraeg – dim tystiolaeth o effaith

Hawliau dynol – dim tystiolaeth o effaith

Beth gellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?

Esboniwch ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Parhau i weithio gyda phob tenant a hoffai gael cyngor cyllidebu neu gymorth i wneud cais am y mwyaf bosibl o fudd-daliadau gan weithio ag anghenion y preswylydd a'r cais er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth ardderchog.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Beth gellir ei wneud i ostwng y risg o effaith negyddol?

Esboniwch ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Parhau i gysylltu â'n tenantiaid a chynorthwyo preswylwyr pan fo newid yn eu hamgylchiadau gan gynnig Cyngor Ariannol a chynlluniau talu fforddiadwy. Bydd effaith gadarnhaol yn parhau oherwydd y bydd pawb yn parhau i gael apwyntiad Cyngor Ariannol ar ddechrau eu tenantiaeth ac yn cael gwybod a fydd y Diwygio Lles yn effeithio arnynt a sut y bydd angen iddynt fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn gwneud y mwyaf o'u budd-daliadau a sicrhau eu bod yn cynnal cyllideb aelwyd. Byddant yn cael cyngor ar unrhyw grantiau neu gymorth y gallant eu derbyn yn ystod dechrau eu tenantiaeth er mwyn eu helpu i gael dodrefn, offer cegin a bwyd os oes angen.

**Oes angen mwy o driniaeth ffafriol er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal?
(Anabledau yn unig)**

Y driniaeth fwyaf ffafriol yw trin pawb fel unigolyn a chynnig y gwasanaethau y mae eu hangen. Cynnig dewis a chyfeirio at asiantaethau eraill os nad oes gennym ni'r arbenigedd ar gyfer yr anghenon unigol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu cartref a bod hynny'n fforddiadwy.

A fydd yr effaith yn gadarnhaol, negyddol neu'n niwtral?

Esboniwch ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar yr unigolyn oherwydd y bydd yn gweithio trwy ddull arbennig ar gyfer yr unigolyn, yn ôl anghenion a beth y gall y tenant ei fforddio bob dydd. Byddwn bob tro'n cynorthwyo unrhyw breswlydd sy'n wynebu caledi.

8. [Monitro effaith barhaus](#)

Dyddiad monitro'r cynnydd

Byddwn yn parhau i fonitro pob mis er mwyn sicrhau ein bod yn cydgasglu ein cysylltiad â'n cwsmeriaid i adlewyrchu cydraddoldeb ein gwasanaeth ar gyfer y grwpiau hyn ac er mwyn i ni allu myfyrio ar ffyrdd o wella ein gwasanaethau, a byddwn yn cydgasglu yn flynyddol a bwydo i'r adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y mae'r Awdurdod Lleol yn ei baratoi a chyhoeddi bob blwyddyn.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Mesurau y byddwch yn monitro

Byddwn yn parhau i fesur y ffigyrau dyledion rhent ar draws ein holl stoc. Byddwn hefyd yn dadansoddi hyn er mwyn canfod yr effaith ar yr holl hawlwyr Credyd Uniongyrchol, nifer y dyledion, dyledion blaenorol a nifer yr Hysbysiadau a gyflwynir i breswylwyr bob mis. Rydym hefyd yn mesur y swm a geir gan grantiau, nwyddau gwyn ac apwyntiadau â Chyngor Ariannol a wneir bob mis er mwyn gwneud y gorau o fudd-daliadau aelwydydd er mwyn cynyddu incwm yr aelwydydd.

Dyddiad adolygu'r cynnig wedi ei weithredu a'i effaith

Byddwn yn cynnal adolygiad ar y cynigion a'u heffaith bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn cynorthwyo ein preswylwyr yn barhaus ac yn casglu'r incwm rhent.

9. [Camau gweithredu pellach o ganlyniad i'r asesiad hwn](#)

Canlyniadau Posibl	Pa rai sy'n berthnasol?
Dim newid mawr	
Addasu'r polisi	
Parhau â'r polisi	Dylem barhau â'r polisi er mwyn parhau i wella ein gwasanaeth a monitro effaith y Diwygio Lles.
Dod â'r polisi i ben a'i ddileu	

10. [Canlyniadau a Chamau Gweithredu](#)

Camau gweithredu a argymhellir i'r uwch dîm rheoli

Mae angen i ni ddiweddarau'r Polisi Rhent, sydd heb ei ddiweddarau ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r polisi'n sicrhau ein bod yn parhau i wella, cynorthwyo ein preswylwyr ac yn parhau

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

i gasglu'r rhent sy'n ddyledus wrth baratoi ar gyfer heriau'r Diwygio Lles.

Canlyniad wedi i'r uwch dîm rheoli ystyried y cynnig yn ffurfiol.

11. [Nodyn Pwysig](#)

Os ydych chi wedi nodi effaith, mae'n rhaid manylu hyn yn eich adroddiad Cabinet w geisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynnig.

12. Awdurdod

Awdurdodwyd gan (enw)	
Teitl Swydd (uwch reolwr)	
Dyddiad Cymeradwyo	
Dyddiad adolygu	

13. Cyhoeddi

Mae'n rhaid i chi anfon copi o'ch asesiad wedi ei gymeradwyo at [Tim Greaves](#), Cydlynnydd Cydraddoldeb, er mwyn ei gyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg. Nodwch unrhyw gyhoeddiad arall sydd wedi digwydd..